

AMCANION POLISI'AU YMCHWIL CCAUC

Mae Nodweddion Dymunol y Sylfaen Ymchwil yng Nghymru yn cynnwys:

- Ansawdd sylfaen ymchwil deinamig ac arloesol sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU ac yn rhyngwladol
- Ei fod yn ddigon eang i ymateb yn hyblyg i heriau newydd ac sy'n datblygu
- Grwpiau ymchwil o faint ac ystod disgyblu sy'n effeithiol a chynaliadwy
- Diwylliant ymchwil sy'n annog staff i wneud eu gwaith i'w llawn botensial, a hwyluso recriwtio a datblygu ymchwilwyr blaenllaw
- Ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy, yn ariannol ac o ran hyfforddi a datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr
- Ei fod yn creu ymchwil o ansawdd uchel a gwreiddiol sy'n hybu gwybodaeth ac arfer, ac yn darparu sylfaen ar gyfer cymhwysu a throsglwyddo gwybodaeth, lle bo hynny'n briodol;
- Ei fod yn cefnogi economi, cymdeithas a diwylliant Cymru
- Ei fod yn hyrwyddo cyfleoedd i ddenu incwm ymchwil gan ffynonellau allanol, gan gynnwys Cynghorau Ymchwil, elusennau, busnesau a'r UE.
- Ei fod yn rhoi cyfle cyfartal trwy hybu amrywiaeth a chydaddoldeb ym mhob agwedd ar recriwtio a rheoli gyrfa ymchwilwyr.

Bydd CCAUC yn galluogi'r sector i gyflawni'r hyn a nodir uchod trwy:

- Barhau i ddyrannu cyllido ymchwil yn ddetholus ar sail ymchwil rhagorol er mwyn cydnabod ac atgyfnerthu ymchwil o ansawdd uchel
- Ceisio sicrhau bod y lefelau o gyllid ymchwil yng Nghymru'n cymharu'n ffafriol â rhannau eraill o'r DU, gan roi blaenoriaeth i sicrhau bod cyllid ar gyfer ymchwil blaenllaw yn parhau i fod yn gystadleuol
- Ceisio cryfhau'r sylfaen ymchwil trwy hybu cydweithio gwirioneddol ac effeithiol sy'n golygu grwpiau ymchwil credadwy o ran maint, cyrhaeddiad disgyblu a chefnogaeth sefydliadol
- Cyllido sylfaen ymchwil digon eang er mwyn galluogi'r sector i ymateb i gyfleoedd ymchwil sy'n codi
- Annog arfer gorau o ran rheoli strategaethau ymchwil sefydliadol, ar gyfer ceisio grant a sicrhau cynaliadwyedd

- Monitro perfformiad sefydliadol ac effaith, gan gynnwys darparu dadansoddiad ac adborth
- Ceisio sicrhau bod y sector mewn sefyllfa dda i ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys *Gwyddoniaeth i Gymru*, ac i flaenoriaethau llywodraeth y DU a'r UE, ac i heriau byd-eang sy'n codi.
- Sicrhau bod polisiau CCAUC yn ymwneud â chyllido ymchwil yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 (ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol).

Diben y cyllid y mae CCAUC yn ei ddarparu o ganlyniad i'w phrif grant ymchwil sy'n seiliedig ar ansawdd yw:

- Rhoi hyblygrwydd i sefydliadau allu penderfynu cyfeiriad strategol eu hymchwil;
- Cefnogi'r sylfaen ymchwil wrth ymateb i gyfleoedd mewn meysydd ymchwil newydd na ddatblygwyd ddigon hyd yma i ddenu nawdd allanol;
- Cefnogi ymchwil o ansawdd uchel pan nad yw nawdd allanol arall yn ofynnol neu ar gael;
- Helpu i dalu balans costau ar gyfer y categorïau hynny o gyllido ymchwil sydd ddim yn talu costau economaidd llawn ar hyn o bryd.